

# Y ffordd i droi drygioni'n ddaioni

“Llawenhaf a gorfoleddaf ynot ti.” (adn. 2)

## Beth am ddarllen Salm 9:1–10 ac yna myfyrto

Dros yr ychydig ddyddiau diwethaf yma buom yn dweud bod yn rhaid bod yn fodlon rhoi'r gorau i ddieter, derbyn yr hyn sy'n anorfod, a bod yn barod i alarnadu er mwyn cymryd rhan yn stori fawr Duw. Ond dyma ni bwynt arall hefyd: *rhaid inni gredu yng ngallu Duw i newid pethau*. Gall anghrediniaeth fod yn rhwystr, er nad yn un parhaol efallai, i Dduw Hollalluog wneud ei waith. Awn ati, felly, i ddatblygu hyder yng ngallu Duw i droi y pethau sy'n ein dal yn ôl mewn bywyd yn bethau sy'n ein gwthio 'mlaen. Gall gymryd sefyllfaoedd o ddrygioni ac anghyfiawnder mawr a'u troi at ddibenion da.

Digwyddodd peth rhyfedd yn Ne Affrica rai blynyddoedd yn ôl. Cafwyd gwraig groenddu'n euog o ryw fân drosedd a'i dirwyo am union werth darn arian oedd ganddi yn ei meddiant, wedi iddi ei etifeddu gan ei mam. Pan roddodd y darn arian – oedd wedi ei wneud o aur – i glerc y llys, fe welodd hwnnw bod y darn, yn ôl y safon aur (*gold standard*) ar y pryd, yn werth llawer mwy na'i werth fel darn arian. Felly, fe roddodd y clerc swm o newid yn ôl i'r wraig oedd yn fwy na'r hyn a dybiai hi oedd gwerth y darn arian yn y lle cyntaf! Heb wybod dim am y safon aur, fe adawodd y wraig y llys gyda'i meddwl yn troi. Wedi cyrraedd yn ôl i'r pentref, fe ofynnodd y wraig i'w ffrindiau sut oedd hi'n bosibl iddi hi gael ei chyhuddo o drosedd ac eto dderbyn elw yn ei sgil.

Efallai eich bod chi wedi profi rhywbeth tebyg mewn rhyw ran arall o fywyd. Drygioni ydy drygioni, meddech chi, trasiedi ydy trasiedi. 'Does dim all newid hynny. Marwolaeth un annwyl inni, buddsoddiad yn cael ei golli, anffyddlondeb cymar, enllib maleisus – pethau i'w condemnio yn unig ydy'r rhain. Sut all rhywun fanteisio oddi wrthyn nhw? Derbyn yr hyn sy'n digwydd heb chwerwedd, bydd barod i alarnadu am hyd priodol o amser, bydd â ffydd yng ngallu Duw i drawsnewid, a bydd yn troi popeth drwg yn dda.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Bren. 17:1–16; Dan. 3:13–28

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut ddaru'r wraig weddw ganiatáu i Dduw droi ei thrasiedi hi yn ddaioni?
2. Pa ddaioni a ddygodd Duw allan o ddrygioni Nebuchadnesar?

## Gweddi

O Dad, efallai na chaf fyw i weld rhai o'r pethau rwyt ti'n eu trawsffurfio ac yn eu dwyn i fod ar hyn o bryd, ond gall fod y bydd y rheiny a ddaw ar fy ôl i'n mynegi gyda'r salmydd: “Gwaith yr Arglwydd yw hyn, ac y mae'n rhyfeddod yn ein golwg.” Eto rwyf yn ddiolchgar iti am hynny. Amen.